# OWEN, HUGH (1761 - 1827), clerigwr a hanesydd lleol

**Enw:** Hugh Owen
**Dyddiad geni:** 1761
**Dyddiad marw:** 1827
**Priod:** Bridget Owen (née Whitfield)
**Plentyn:** Edward Pryce Owen
**Rhiant:** Pryce Owen
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** clerigwr a hanesydd lleol
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Hanes a Diwylliant
**Awdur:** William Llewelyn Davies

mab Pryce Owen, meddyg, Amwythig (' Pryce Owen of Bettws,' Sir Drefaldwyn, medd Richard Williams, *Montgomeryshire worthies*), a'i wraig Bridget, merch John Whitfield. Er mai tenau braidd ydyw cysylltiad Owen â Chymru rhaid ei gynnwys yma pe na bai ond am ei fod yn gyd-awdur (â J. B. Blakeway) *A History of Shrewsbury*, gwaith gwerthfawr mewn dwy gyfrol bedwarplyg, 1825, sydd o ddiddordeb i haneswyr Cymru. Cafodd ei addysg yng Ngholeg S. Ioan, Caergrawnt (B.A. 1783, M.A. 1807). Daeth yn ficer S. Julian, Amwythig, 1791, yn brebend yr eglwys gadeiriol, Salisbury, 1803; cafodd hefyd 'gyfran' o ficeriaeth Bampton, swydd Rhydychen, 1819, daeth yn archddiacon Salop 27 Rhagfyr 1821, cafodd brebendiaeth yn eglwys gadeiriol Lichfield, 30 Mawrth 1822 a dilynodd Blakeway yn S. Mary's, Amwythig, yn 1826. Bu farw 23 Rhagfyr 1827.

Mab iddo oedd Edward Pryce Owen.

## Awdur

**Syr William Llewelyn Davies**, (1887 - 1952)

## Ffynonellau


*Oxford Dictionary of National Biography*

R. Williams, *Montgomeryshire Worthies* (1894)


## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 8867355

Wikidata: Q15994665


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu